# LC1233

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006

Mae’r Gorchymyn hwn yn cychwyn y darpariaethau hynny yn Neddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005 ("y Ddeddf") sy’n dileu'r gofyniad i awdurdodau lleol gontractio allan eu swyddogaethau gwaredu gwastraff ac yn gwneud diddymiadau canlyniadol i amryw o ddarpariaethau Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1990 ("Deddf 1990"). Mae’r darpariaethau cychwyn hefyd yn diwygio Deddf 1990 o ran ymyriad â safleoedd gwastraff a daliedyddion gwastraff, ac yn galluogi awdurdodau casglu gwastraff i ddefnyddio'u pwerau ymchwilio o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 o ran cyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau o dan Ddeddf 1990. Mae’r Gorchymyn hefyd yn cychwyn darpariaethau i’r graddau eu bod yn galluogi’r Cynulliad Cenedlaethol i wneud, rhoi neu ddyroddi is-ddeddfwriaeth ac yn diwygio'r trefniadau ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiadau adfer a gyflwynir o dan Ddeddf 1990.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd Cynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i graffu ar ddrafft cynharach o’r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd pwyntiau adrodd posibl yn y drafft presennol ac ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Dim

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 7 Mawrth 2006